

Adran y Gymraeg ac
Astudiaethau Celtaidd

Astudiaethau israddedig ac uwchraddedig mewn

# Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Proffiliau myfyrwyr | t.18 |
| Cyflogadwyedd | t.20 |
| Ymchwil | t.21 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.22 |
| Sut i wneud cais | t.24 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mehefin 2022), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso

Croeso i Adran Gymraeg gyntaf Cymru. Sefydlwyd Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Aberystwyth ym 1875, ac ers hynny mae'r Adran wedi arwain y sector â chyrsiau arloesol ym maes iaith a llên, ysgrifennu creadigol, Cymraeg Proffesiynol, astudiaethau cyfieithu ac Astudiaethau Celtaidd.

Yn y Gymru gyfoes ddatganoledig sydd wedi rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, rydym yn paratoi ein myfyrwyr ar gyfer ystod ehangach nag erioed o swyddi, ac rydym yn chwarae rôl allweddol yn yr ymgyrch i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Adran yn gymuned agos ac eangfrydig sy'n cynnig amgylchedd cefnogol i'w holl fyfyrwyr, boed yn ddechreuwyr neu'n siaradwyr hyderus a rhugl. Gan fod ein myfyrwyr yn dod atom o bob rhan o Gymru a'r byd mae deinameg arbennig i'n bywyd academaidd a chymdeithasol.

Fel Adran, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyrsiau diddorol sy'n hogi sgiliau beirniadol ein myfyrwyr ac yn eu hysbrydoli i gyflawni eu potensial. Mae staff yr Adran yn ymchwilwyr profiadol ac adnabyddus yn eu meysydd ac maent yn cyhoeddi ymchwil o safon ryngwladol sy'n bwydo i mewn i'r cyrsiau sydd ar gael.

Mae diddordebau ymchwil eang ein staff yn golygu bod Aberystwyth yn cynnig profiad dysgu cyflawn. Mae ein cyrsiau yn eang eu cwmpas ac yn cynnig cyfle i astudio'r Gymraeg yn y gweithle proffesiynol, astudiaethau cyfieithu, barddoniaeth a rhyddiaith gyfoes, beirniadaeth lenyddol, ysgrifennu creadigol, llenyddiaeth yr Oesoedd Canol, ac ysgrifennu menywod. Rydym hefyd yn arbenigo ym maes Astudiaethau Celtaidd, ac felly mae ein myfyrwyr hefyd yn rhydd i astudio'r Wyddeleg, Llydaweg a Gaeleg yr Alban. Mae cyfleoedd eraill ar gael hefyd drwy gyfrwng cynlluniau cyfnewid â phrifysgolion yn Ewrop a gogledd America. Chi biau'r dewis!

O ymuno â ni, byddwch yn ymuno â phrifysgol sydd wedi ennill safon Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu. At hynny, cafodd y Brifysgol gydnabyddiaeth Canllaw Prifysgolion Da, *The Times and Sunday Times* am ansawdd uchel y dysgu, ddwy flynedd yn olynol. Rydym yn cyfoethogi darlithiau a seminarau â thechnegau dysgu arloesol, gwaith grŵp, ac adnoddau electronig. I fyfyrwyr iaith, mae gennym lwybrau yn y Gymraeg a'r Wyddeleg wedi eu teilwra ar gyfer pob gallu, ac mae modd astudio Gaeleg yr Alban a Llydaweg hefyd.

Oherwydd ei lleoliad, mae myfyrwyr Aberystwyth - yn ddechreuwyr ac yn siaradwyr rhugl fel ei gilydd - yn gallu defnyddio eu sgiliau ieithyddol yn y gymuned yn ogystal ag ar gampws y Brifysgol.

Rydym hefyd yn darparu Tiwtor Ail Iaith penodedig, cynllun mentora gan gymheiriaid, ac amser paned anffurfiol rheolaidd. At hynny, mae UMCA (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth) yn dod â siaradwyr Cymraeg at ei gilydd mewn ystod o ddigwyddiadau cymdeithasol, cerddorol, elusennol a chwaraeon ar draws y flwyddyn academaidd. Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn mae'r cwis poblogaidd a gynhelir yn ystod yr Wythnos Groeso, ynghyd â'r Noson Llên a Chân a lansiad blynyddol Y Ddraig a drefnir gan ein myfyrwyr.

Er mwyn dysgu rhagor am ein Hadran a'n cynlluniau gradd, dewch i un o'n Diwrnodiau Agored. Cewch weld drosoch eich hunan pam fod ein myfyrwyr wedi dyfarnu 100% inni am foddhad cyffredinol yn yr holiadur NSS diweddaraf.

**Dr Cathryn A. Charnell-White**
**Pennaeth Adran**



# Ein cyrsiau Israddedig

## Anrhydedd sengl


| | |
|---|---|
| Astudiaethau Celtaidd | t.3 |
| Cymraeg | t.4 |
| Cymraeg (i Ddechreuwyr) | t.5 |
| Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd | t.6 |
| Cymraeg Proffesiynol | t.8 |
| Cymraeg y Gweithle Proffesiynol | t.9 |
| Ysgrifennu Creadigol a'r Diwydiant Cyhoeddi | t.10 |
| Graddau Cyfun | t.11 |




# Astudiaethau Celtaidd

85% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh)

Mae Aberystwyth yn adnabyddus am ei hymchwil ym maes yr ieithoedd Celtaidd ynghyd â'u diwylliannau, eu hanes a'u llenyddiaeth. Bydd ein gradd mewn Astudiaethau Celtaidd, sy'n bedair blynedd o hyd, yn rhoi cyfle unigryw i chi ddysgu am yr ieithoedd Celtaidd a'u diwylliannau.

**Cwrs cyfrwng Saesneg yw hwn. Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd (Q562) yw'r cwrs Cymraeg cyfatebol.**

Yn eich blwyddyn gyntaf byddwch yn meithrin y sgiliau i allu ystyried cwestiynau eang ynghylch hunaniaeth, diwylliant a llenyddiaeth, gan ymgymryd yr un pryd â dysgu iaith Geltaidd fodern. Wedi hynny, byddwch yn canolbwyntio ar ehangu a dyfnhau eich gwybodaeth o'r ieithoedd Celtaidd ac yn dysgu mwy am eu llenyddiaeth a'u diwylliant o'r cyfnod cynharaf hyd heddiw.

Y Gymraeg a'r Wyddeleg yw'r ieithoedd craidd a gynigir. Fodd bynnag, mae'r ystod o fodiwlau sydd ar gael yn golygu bod digon o gyfle i chi gynllunio cwrs gradd sy'n gweddu i'ch diddordebau, ee Llydaweg a'r diwylliant Celtaidd ehangach.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Celtic Studies yn Aberystwyth:

- clywed a defnyddio'r Gymraeg mewn cymuned Gymraeg ei hiaith
- Ymuno ag adran academaidd yn y DU sy'n dysgu'r ystod ehangaf o ieithoedd Celtaidd, sef Cymraeg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a Llydaweg
- manteisio ar gymuned ysgolheigaidd eangfrydig a rhyngwladol, a diwylliant ymchwil byrlymus
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i chasgliad o adnoddau llenyddol, clywedol a gweledol gwych
- ymgeisio am ysgoloriaeth gan Lywodraeth Iwerddon i ddilyn cwrs iaith dwys yn Iwerddon.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyfleoedd gyrfa yn cwmpasu cyfieithu (gan gynnwys cyfieithu ar y pryd), trawsgrifio, newyddiaduraeth a darlledu, cyhoeddi, ysgrifennu copi, gweinyddu a rheoli.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- The Celts: A Contested Legacy
- Beginning Modern Welsh 1 & 2
- Introduction to the Literature of Gaelic Ireland
- Introduction to Welsh Literature.

**Yr ail flwyddyn:**

- Introduction to Modern Irish Language neu Modern Irish Language and Literature for Non-Beginners
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus
- Llenyddiaeth Gymraeg: Cyfoes a Hanesyddol
- Cwrs Cymraeg Llafar (cwrs haf Dysgu Cymraeg mis Awst).

**Y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn:**

Modiwlau dewisol, ond bydd myfyrwyr yn dilyn llwybr ieithyddol o'u dewis eu hunain, sy'n cynnwys modiwlau penodol.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau Bob Lliw
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Women's Poetry in Ireland, Scotland and Wales 1400-1800
- Llydaweg: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q500.

**Hyd:** 4 blynedd.

# Cymraeg

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

O astudio cwrs gradd yn y Gymraeg yn Aberystwyth, byddwch yn aelod o Adran sy'n arwain y sector mewn meysydd fel beirniadaeth lenyddol, astudiaethau cyfieithu, ysgrifennu creadigol a'r Gymraeg yn y gweithle proffesiynol. Mae'r Adran yn gartref i gymuned fywiog o fyfyrwyr ac ymchwilwyr, o Gymru a'r tu hwnt, sy'n rhannu'r nod o hybu dealltwriaeth ehangach o'r iaith, ei hanes, ei llenyddiaeth, a'i lle yn y byd modern.

Mae'r cynllun gradd hwn yn cynnwys llwybrau Iaith Gyntaf ac Ail Iaith. Bydd astudio am radd BA Cymraeg yn caniatáu ichi wella eich Cymraeg ysgrifenedig a llafar, astudio ystod gynhwysfawr o lenyddiaeth o bob cyfnod, a dyfnhau eich dealltwriaeth o'r iaith a'r modd y mae'n parhau i ddatblygu mewn cyd-destun byd-eang.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr BA Cymraeg yn Aberystwyth:

- cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth - staff sy'n weithgar fel ymchwilwyr ac yn brofiadol iawn ym maes dysgu
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- dysgu iaith Geltaidd arall yn ogystal â'r Gymraeg os ydynt yn dymuno
- dewis o blith ystod eang o fodiwlau ieithyddol, llenyddol, beirniadol, proffesiynol a chreadigol
- bod yn rhan o Adran a chanddi lu o gysylltiadau gwaith â busnesau preifat a chyrff sector cyhoeddus, a hynny'n eich galluogi i greu cysylltiadau gwerthfawr ym myd gwaith
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i chasgliad o adnoddau llenyddol, clywedol a gweledol gwych.

**Cyflogadwyedd**

Mae adborth gan gyflogwyr yn dangos yn gyson bod gradd yn y Gymraeg yn arwydd o gyrhaeddiad uchel, ac mae tystiolaeth bod galw mawr am raddedigion o'r fath mewn amrywiaeth o swyddi. Mae ein graddedigion yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat mewn meysydd megis dysgu, cyfieithu, gweinyddu, y cyfryngau a chyhoeddi, gwaith cymdeithasol, y gyfraith, twristiaeth, a'r heddlu. Yn ogystal, mae deddfwriaeth iaith, a datblygu Senedd Cymru wedi arwain at alw cynyddol am weithwyr sifil a chanddynt sgiliau ieithyddol da.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
**Iaith Gyntaf**

- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Themâu a Ffigurau Llên c.550-1900
- Beirdd a Llenorion o 1900 hyd Heddiw.

**Ail Iaith**

- Ysgrifennu Cymraeg Graenus
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Trafod y Byd Cyfoes drwy'r Gymraeg
- Llenyddiaeth Gymraeg: Cyfoes a Hanesyddol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Gloywi Iaith (iaith gyntaf)
- Cymraeg y Gweithle Proffesiynol (ail iaith).

**Y drydedd flwyddyn:**

- Gloywi Iaith yr Ail Iaith (ail iaith)

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau Bob Lliw
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Llydaweg: Cyflwyniad
- Gwyddeleg Modern: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q560.

**Hyd:** 3 blynedd.



# Cymraeg (i Ddechreuwyr)

88% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

O astudio cwrs gradd yn y Gymraeg yn Aberystwyth, byddwch yn aelod o Adran sy'n arwain y sector mewn meysydd fel astudiaethau cyfieithu, ysgrifennu creadigol a'r Gymraeg yn y gweithle proffesiynol. Mae'r Adran yn gartref i gymuned fywiog o fyfyrwyr ac ymchwilwyr, o Gymru a'r tu hwnt, sy'n rhannu'r nod o hybu dealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg, ei hanes, ei llenyddiaeth, a'i lle yn y byd modern.

Ar y cwrs pedair blynedd hwn, cewch gyfle i wella eich Cymraeg ysgrifenedig a llafar, astudio ystod gynhwysfawr o lenyddiaeth o bob cyfnod, a dyfnhau eich dealltwriaeth o'r iaith a'r modd y mae'n parhau i ddatblygu mewn cyd-destun byd-eang.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Cymraeg yn Aberystwyth:

- cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth - staff sy'n weithgar fel ymchwilwyr ac yn brofiadol iawn ym maes dysgu
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- dysgu iaith Geltaidd arall yn ogystal â'r Gymraeg
- dewis o blith ystod eang o fodiwlau ieithyddol, llenyddol, beirniadol, proffesiynol a chreadigol
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i chasgliad o adnoddau llenyddol, clywedol a gweledol gwych.

**Cyflogadwyedd**

Mae adborth gan gyflogwyr yn dangos yn gyson bod gradd yn y Gymraeg yn arwydd o gyrhaeddiad uchel, ac mae tystiolaeth bod galw mawr am raddedigion o'r fath mewn amrywiaeth o swyddi. Mae ein graddedigion yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat mewn meysydd megis dysgu, cyfieithu, gweinyddu, y cyfryngau a chyhoeddi, gwaith cymdeithasol, y gyfraith, twristiaeth, a'r heddlu. Yn ogystal, mae deddfwriaeth iaith, a sefydlu Senedd Cymru wedi arwain at alw cynyddol am weithwyr sifil a chanddynt sgiliau ieithyddol da.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Beginning Modern Welsh 1 & 2
- Introduction to Welsh Literature.

**Yr ail flwyddyn:**

- Trafod y Byd Cyfoes
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus.

**Y drydedd flwyddyn:**

- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Cymraeg y Gweithle Proffesiynol.

**Y flwyddyn olaf:**

- Gloywi Iaith yr Ail Iaith.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau Bob Lliw
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Llydaweg: Cyflwyniad
- Gwyddeleg Modern: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q522.

**Hyd:** 4 blynedd.

# Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

O astudio Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd yn Aberystwyth cewch gyfle i astudio Gwyddeleg Gaeleg yr Alban a Llydaweg, yn ogystal â'r Gymraeg. Byddwch yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r ieithoedd Celtaidd a'u llenyddiaethau hanesyddol a chyfoes, ynghyd â gwerthfawrogi eu deinameg ddiwylliannol a chreadigol.

Dysgir y cwrs hwn yn un o adrannau mwyaf blaenllaw y Deyrnas Unedig ar gyfer astudio'r Gymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd, a chynigiwn ddewis helaeth o fodiwlau sy'n sicr o danio'ch diddordeb.

Nod y cwrs hwn yw hyrwyddo eich datblygiad ieithyddol, ac felly bydd myfyrwyr y cynllun fel arfer yn treulio semester yn eu trydedd flwyddyn yn astudio mewn prifysgol dramor. Bydd y profiad hwn yn caniatáu i chi feithrin eich sgiliau iaith a'ch hyder, ac, yn ogystal â hyn, byddwch yn dysgu sgil y mae cyflogwyr yn ei edmygu'n fawr – y gallu i fyw a gweithio'n annibynnol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr y Gymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd yn Aberystwyth:

- astudio mewn adran sy'n dysgu ac yn ysbrydoli cenedlaethau ers 1875
- bod yn rhan o Adran a chanddi lu o gysylltiadau gwaith â busnesau preifat a chyrff sector cyhoeddus, a hynny'n eich galluogi i greu cysylltiadau gwerthfawr ym myd gwaith
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- ymuno â'r adran academaidd yn y DU sy'n dysgu'r ystod ehangaf o ieithoedd Celtaidd: Cymraeg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, a Llydaweg
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd
- ymgeisio am ysgoloriaeth gan Lywodraeth Iwerddon i ddilyn cwrs iaith dwys yn Iwerddon.

**Cyflogadwyedd**
Mae adborth gan gyflogwyr yn dangos yn gyson bod gradd yn y Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd o Brifysgol Aberystwyth yn arwydd o gyrhaeddiad uchel. Mae ein graddedigion yn dod o hyd i waith yn y sector cyhoeddus a phreifat mewn meysydd megis dysgu, cyfieithu, gweinyddu, y cyfryngau a chyhoeddi, gwaith cymdeithasol, y gyfraith, twristiaeth, yr heddlu, a'r gwasanaeth sifil.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
**Iaith Gyntaf**

- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Themâu a Ffigurau Llên c.550-1900
- Beirdd a Llenorion o 1900 hyd Heddiw.

**Ail Iaith**

- Ysgrifennu Cymraeg Graenus
- Trafod y Byd Cyfoes drwy'r Gymraeg
- Llenyddiaeth Gymraeg: Cyfoes a Hanesyddol.

**Yr ail a'r drydedd flwyddyn:**

- Gloywi Iaith.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Gwyddeleg Modern (Iaith a Llên)
- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Barddoniaeth Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau Bob Lliw
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q562.

**Hyd:** 3 blynedd.





# Cymraeg Proffesiynol

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Mae hi'n bwysig darparu gwybodaeth a sgiliau i fyfyrwyr er mwyn iddynt lwyddo mewn gweithle proffesiynol dwyieithog. Aberystwyth yw cartref Cymraeg Proffesiynol, ac mae'r cwrs hwn, sy'n arwain y sector, yn boblogaidd ymhlith myfyrwyr a chyflogwyr sy'n chwilio am 'safon aur' yn y Gymraeg.

Bydd Cymraeg Proffesiynol yn mireinio'r sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn cyd-destunau proffesiynol mor amrywiol â llywodraeth yng Nghymru, newyddiaduraeth, y cyfryngau a'r diwydiant cyhoeddi. Rydym hefyd yn darparu cyfle i chi roi'r sgiliau hyn ar waith trwy gyfrwng profiad gwaith mewn un o 30 o sefydliadau a busnesau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan greu cyfleoedd hollbwysig ichi rwydweithio.

Mae ein modiwlau craidd yn cyflwyno ystod o sgiliau hanfodol: llunio adroddiadau a datganiadau i'r wasg, cymryd cofnodion, cyfieithu ar y pryd, addasu ar gyfer radio/teledu/ffilm, golygu copi, ac addasu testunau o ieithoedd eraill. Gallwch hefyd astudio amrywiaeth eang o fodiwlau dewisol sy'n canolbwyntio ar iaith, llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol, neu gallwch ychwanegu iaith arall at eich CV proffesiynol drwy astudio iaith Geltaidd arall.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Cymraeg Proffesiynol yn Aberystwyth:

- manteisio ar gefnogaeth darlithydd penodedig Cymraeg Proffesiynol ar y cynllun cyntaf o'i fath yng Nghymru
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- bod yn rhan o Adran a chanddi lu o leoliadau gwaith â busnesau preifat a chyrff sector cyhoeddus, a hynny'n eich galluogi i greu cysylltiadau gwerthfawr ym myd gwaith
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i hadnoddau gwych.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyfleoedd gyrfaol amrywiol ar gael i raddedigion y cyrsiau hyn, er enghraifft: cyfieithu, newyddiaduraeth, cyhoeddi, gweinyddu a rheoli. Mae nifer cynyddol o'n graddedigion wedi dechrau eu gyrfaoedd gydag un o'r cwmnïau neu sefydliadau partner lle buont yn gwneud profiad gwaith.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Gymraeg Proffesiynol
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar.

**Yr ail flwyddyn:**
- Gloywi Iaith
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Astudiaethau Trosi ac Addasu
- Bro a Bywyd: Dehongli Treftadaeth Lenyddol y Cymry.

**Y drydedd flwyddyn**
- Prosiect Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau Bob Lliw
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Llydaweg: Cyflwyniad
- Gwyddeleg Modern: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q5P0.

**Hyd:** 3 blynedd.



# Cymraeg y Gweithle Proffesiynol

## (gyda Busnes a Rheolaeth; Cyfrifeg a Chyllid)

## BA (Anrh)

Mae'r cwrs arloesol, Cymraeg y Gweithle Proffesiynol, ar gael gyda Chyfrifeg a Chyllid (QN54) neu Busnes a Rheolaeth (QN51). Mae'r cyrsiau BA anrhydedd cyfun Cymraeg y Gweithle Proffesiynol yn cyfuno sgiliau ieithyddol a phroffesiynol ag arbenigedd mewn Cyfrifeg a Chyllid neu Busnes a Rheolaeth.

Ar y ddau gwrs hwn, bydd cyfle ichi ddysgu sut i weinyddu, golygu, cyfieithu a marchnata. Cewch ddysgu sgiliau rheoli, cyflwyno, arwain a chydweithio. Ar QN51 byddwch hefyd yn dysgu am entreprenwriaeth a datblygu eich busnes eich hun, ac ar QN54 byddwch yn arbenigo ym meysydd cyfrifeg a chyllid.

Bydd y cwrs unigryw hwn sy'n cyfuno modiwlau iaith a llenyddiaeth Gymraeg gyda modiwlau Busnes a Rheolaeth / Cyfrifeg a Chyllid yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth ichi y mae'r sector gyhoeddus a phreifat yn galw amdanynt.

Mae'r cwrs hwn ar gael i fyfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith, ac mae cyfle unigryw i ddilyn y cwrs hyd yn oed os nad ydych wedi astudio Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Cymraeg y Gweithle Proffesiynol yn Aberystwyth:

- clywed a defnyddio'r Gymraeg mewn cymuned Gymraeg ei hiaith
- manteisio ar brofiadau'r staff addysgu ym maes Cymraeg Proffesiynol a Busnes a Rheolaeth neu Gyfrifeg a Chyllid, ac amgylchedd ymchwil fyrlymus
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyfleoedd gyrfa yn cwmpasu cyfieithu (gan gynnwys cyfieithu ar y pryd), trawsgrifio, newyddiaduraeth a darlledu, cyhoeddi, ysgrifennu copi, gweinyddu a rheoli. Mae nifer cynyddol o'n graddedigion wedi cychwyn gyrfaoedd gyda chwmnïau partner a sefydliadau lle buont yn cwblhau hyfforddiant yn y gwaith fel rhan o'r cwrs.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Understanding the Economy
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus.

**Yr ail flwyddyn:**
- Corporate Finance and Financial Markets
- Cymraeg y Gweithle Proffesiynol
- Gloywi Iaith
- Intermediate Management Accounting
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Rheolaeth Marchnata.

**Y flwyddyn olaf:**
- Gloywi Iaith yr Ail Iaith.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Y Cynfeirdd Diweddar
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau Bob Lliw
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

% ar gael drwy'r Gymraeg

- 80% Cymraeg y Gweithle Proffesiynol / Busnes a Rheolaeth (QN51)
- 48% Cymraeg y Gweithle Proffesiynol / Cyfrifeg a Chyllid (QN54)

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS: QN51** - Cymraeg y Gweithle Proffesiynol / Busnes a Rheolaeth.
**QN54** - Cymraeg y Gweithle Proffesiynol / Cyfrifeg a Chyllid.

**Hyd:** 3 blynedd.

# Ysgrifennu Creadigol a'r Diwydiant Cyhoeddi

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh)

Bydd y radd Ysgrifennu Creadigol a'r Diwydiant Cyhoeddi ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhoi ichi ddealltwriaeth drylwyr o'r maes. Cewch gyfle i droi'ch llaw at nifer fawr o wahanol ffurfiau creadigol, o gerddi i straeon byrion, o lên meicro i lenyddiaeth ecffrastig - gan feithrin y gallu i'w defnyddio'n bwrpasol wrth greu. At hynny, cewch eich cyflwyno i faes eang y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a'r tu hwnt, gyda golwg benodol ar weisg ac ar asiantaethau allweddol fel Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae ysgrifennu'n greadigol yn sgìl allweddol sy'n cyfoethogi ein bywydau ni i gyd. Yn Aberystwyth, cewch gyfle i ddatblygu a mireinio'ch sgiliau ysgrifennu creadigol mewn Adran a chanddi draddodiad hir o arwain yn y maes hwn.

Mae'r cwrs hwn yn gyffrous ac yn hyblyg, ac mae'r sylw a roddir ynddo i'r diwydiant cyhoeddi ac i greadigrwydd fel ei gilydd yn ei wneud yn gwrs deinamig ac unigryw.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ysgrifennu Creadigol a'r Diwydiant Cyhoeddi yn Aberystwyth:

- cael eich addysgu gan staff academaidd sy'n gwneud ymchwil ac sy'n arbenigwyr yn eu meysydd, gan gynnwys cyhoeddi, cyfieithu creadigol, golygu a phrawfddarllen
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- elwa o gysylltiadau cryf â chyhoeddwyr a sefydliadau llenyddol lleol
- ymgymryd â phrofiad gwaith perthnasol, ee gyda golygydd neu wasanaeth golygyddol, gwasg neu gyhoeddwr annibynnol
- dysgu iaith Geltaidd arall yn ogystal â'r Gymraeg os ydych yn dymuno.

**Cyflogadwyedd**
Erbyn diwedd y cwrs, byddwch yn meddu ar sgiliau creadigol, ymchwilio, beirniadol a chyfathrebu o safon uchel, ac yn barod am yrfa yn y diwydiant ysgrifennu a chyhoeddi ehangach.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Ysgrifennu Creadigol
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar (iaith gyntaf)
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus (ail iaith ac iaith gyntaf heb Safon Uwch).

**Yr ail flwyddyn:**

- Gweithdai Ysgrifennu Creadigol
- Gloywi Iaith.

**Y drydedd flwyddyn:**

- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Portffolio Ysgrifennu Creadigol Annibynnol.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Testunau bob lliw
- Rhyddiaith y Dadeni
- Pedair Cainc y Mabinogi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Barddoniaeth Tri Chwarter Canrif 1900-79
- Barddoniaeth Gymraeg Gyfoes
- Cymraeg Ddoe a Heddiw: Cyflwyniad i Ieithyddiaeth.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.


**Cod UCAS:** W840.

**Hyd:** 3 blynedd.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | Addysg | QX53 |
| | Astudiaethau Ffilm a Theledu | QWM6 |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 5FQL |
| | Daearyddiaeth | LQ75 |
| | Drama a Theatr | QW54 |
| | Hanes | QV51 |
| | Hanes Cymru | QVN1 |
| | Mathemateg | GQ15 |
| **Cymraeg Proffesiynol** | Y Gyfraith | MQ56 |
| **Cymraeg y Gweithle Proffesiynol** | Busnes a Rheolaeth | QN51 |
| | Cyfrifeg a Chyllid | QN54 |



# Ein cyrsiau Uwchraddedig


| | |
|---|---|
| Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol | p.13 |
| Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd | p.14 |
| MPhil, PhD, DProf | p.17 |




# Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol

Cymraeg ar gael drwy'r Gymraeg 100%

## MA, Diploma, Tystysgrif

Mae'r cynllun hwn yn addas i unrhyw un sy'n dymuno datblygu gyrfa ym maes cyfieithu proffesiynol.

Trwy nawdd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, arweinir a dysgir y cynllun uwchraddedig cenedlaethol hwn, yn bennaf, gan Brifysgol Aberystwyth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys elfen gydweithredol, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant sy'n darparu ac yn dysgu'r modiwlau cyfieithu ar y pryd ac isdeitlo opsiynol. Mae'n gynllun hyblyg iawn a gallwch ddewis un o dri llwybr: Tystysgrif (60 credyd), Diploma (120 credyd) neu MA (180 credyd).

Cyflwynir y modiwlau gan arbenigwyr yn y maes, a cheir cyfle i gael profiad gwaith. Dyma gyfle hefyd felly i weithio ochr yn ochr â chyfieithwyr proffesiynol yn y sector cyfieithu yng Nghymru. Byddwch yn cael cyfle i astudio damcaniaethau a thechnegau cyfieithu, technoleg ac adnoddau cyfieithu, yn ogystal â swyddogaeth y cyfieithydd yn y gweithle. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfieithu o'r radd uchaf, a rhoddir pwyslais cryf ar sesiynau ymarferol, ac ar weithdai.

Fe'ch cyflwynir i bob agwedd ar gyfieithu ac mae'r meysydd astudio'n cynnwys cyfieithu cyffredinol, cyfieithu deddfwriaethol ac arbenigol; technoleg cyfieithu; cyfieithu creadigol rhyngwladol; yn ogystal â chyfieithu ar y pryd, a ddarperir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cewch hefyd ddewis cwblhau prosiect ymchwil.

**Cyflogadwyedd**

Bydd yr MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol yn rhoi cyfle ichi ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer datblygu gyrfa lwyddiannus ym maes cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Fel arbenigwyr iaith, bydd y cymhwyster hwn yn rhoi sylfaen gadarn iawn ichi fedru ymuno'n hyderus â'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru, gan eich cynorthwyo i ymwneud yn llawn â'r agweddau ehangach hynny ar gyfieithu hefyd, megis isdeitlo.

Byddwch yn ymgeisydd cryf hefyd ar gyfer unrhyw swydd sy'n gofyn am sgiliau golygu a phrawfddarllen, ac o ganlyniad i'ch sgiliau iaith cadarn, byddwch yn gaffaeliad mawr i'r gweithlu dwyieithog yng Nghymru.

## Modiwlau

Ar y cwrs hwn, byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol:

- Datblygu Sgiliau Cyfieithu
- Cyfarpar Cyfieithu
- Portffolio Cyfieithu 1 (Cyffredinol)
- Portffolio Cyfieithu 2 (Arbenigol)
- Cyfieithu ar Waith
- Cyflwyniad i Gyfieithu ar y Pryd.

Bydd myfyrwyr Diploma a'r MA yn dewis o blith y modiwlau canlynol:

- Meistroli Mynegiant yn y Gweithle Proffesiynol
- Prosiect Arbenigol
- Cyfieithu Creadigol Rhyngwladol
- Portffolio Cyfieithu 2
- Uwch Sgiliau Golygu
- Hanfodion Isdeitlo
- Cyfieithu a Byd Busnes
- Cyfieithu ar y Pryd: arfer ac ymarfer
- Ymarfer Cyfieithu a Golygu (modiwl ar-lein)
- Polisi a Chynllunio Iaith yng Nghymru
- Dulliau Darllen.

Bydd myfyrwyr yr MA hefyd yn gwneud Prosiect Estynedig, 60 credyd.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** MA.

**Cod UCAS:** Q596.

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 / 3 blynedd (rhan-amser) neu fodiwl wrth fodiwl. (Tystysgrif 1 flwyddyn rhan-amser; Diploma 1 flwyddyn amser llawn neu 2 flynedd rhan-amser).

# Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Cymraeg ar gael yn rhannol drwy'r **Gymraeg**

## MA

Mae'r MA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gwrs unigryw sy'n caniatáu i fyfyrwyr archwilio'r ystod lawn o ieithoedd a llenyddiaethau Celtaidd o'r cyfnod cynharaf i'r cyfnod modern.

Mae Astudiaethau Celtaidd yn ddisgyblaeth hynod ddifyr, a gyda'r radd hon cewch gyfle i astudio'r ieithoedd Celtaidd unigol, eu llenyddiaeth a'u diwylliant, a hynny o dan arweiniad arbenigwyr. P'un a ydych yn ymddiddori mewn iaith, llenyddiaeth neu ddiwylliant, cewch ddewis o blith amrywiaeth eang o bynciau sy'n eich diddori. Bydd modiwlau cymharol yn eich paratoi i archwilio'n feirniadol wreiddiau'r pobloedd sy'n siarad ieithoedd Celtaidd ynghyd â hanesyddiaeth Astudiaethau Celtaidd. Yn y modiwl traethawd hir, byddwch yn gweithio o dan arweiniad arbenigwr i ddatblygu prosiect ymchwil mewn maes ymchwil penodol sydd o ddiddordeb i chi.

Does dim rhaid i chi fod yn rhugl yn y Gymraeg na'r Wyddeleg i astudio'r cwrs hwn. Mae'n ddigon hyblyg i fod yn addas ar gyfer rheiny sy'n hollol newydd i'r maes yn ogystal â'r rheiny sydd wedi astudio ieithoedd a llenyddiaethau Celtaidd ar lefel israddedig.

**Cyflogadwyedd**

Bydd pob un o elfennau'r MA Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn gwella'ch rhagolygon gyrfa. Gan ddatblygu gwybodaeth a phrofiad pwnc-benodol, un o gryfderau'r cwrs hwn yw'r pwyslais yr ydym yn ei roi ar ddatblygiad personol. Wrth ichi ddatblygu i fod yn arbenigwr ar iaith, bydd eich ymchwil a'ch gallu i fod yn feirniadol yn golygu y byddwch yn ymgeisydd cryf ar gyfer unrhyw swydd lle mae angen ymchwilio, dadansoddi, trafod, ehangu a dosbarthu syniadau a thestunau.

Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau creadigol, ymchwilio, dadansoddi a thrafod, sef yr union sgiliau y byddwch yn eu datblygu ar y cwrs hwn. Bydd y sgiliau hyn yn rhoi dechrau da ichi yn y farchnad swyddi.

## Modiwlau

Ar y cwrs hwn, byddwch yn astudio'r modiwl canlynol:

- Dissertation.

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Comparative Celtic Literature
- Comparative Celtic Philology
- Cyfieithu Creadigol Rhyngwladol
- Early Medieval Welsh Poetry
- Introduction to Scottish Gaelic Language and Literature
- Medieval Saga Literature of Ireland
- Old Irish for Beginners
- Reading Early Modern Gaelic Prose Texts
- The Mabinogion: Legendary and Arthurian Literature in Middle Welsh
- Welsh Language 1
- Welsh Language 2
- Women's Poetry in Ireland, Scotland and Wales 1400 - 1800
- Gerald of Wales
- Language Revitalisation in a Global Context
- Latin for Postgraduate Study
- Medieval and Post -Medieval Palaeography and Diplomatic
- Meistroli Mynegiant yn y Gweithle Proffesiynol
- Post-Medieval Palaeography and Diplomacy.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'n gwefan.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BA.

**Cod UCAS:** Q506.

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser).









# MPhil, PhD, DProf

ar gael drwy'r Gymraeg 100%

Rydym yn annog ceisiadau am brosiectau MPhil, PhD a DProf, ac fe weithiwn gyda chi i ddatblygu eich cwestiynau ymchwil, o'r cais cychwynnol i'r traethawd ymchwil gorffenedig.

Cwrs blwyddyn yw'r MPhil (neu ddwy flynedd rhan-amser) lle bydd disgwyl i chi ysgrifennu traethawd hir oddeutu 50,000-60,000 o eiriau.

Dyfernir PhD ar ôl cwblhau traethawd hir boddhaol oddeutu 80-100,000 o eiriau, gydag arholiad viva voce i ddilyn. Y cyfnod cofrestru arferol yw tair blynedd (amser llawn), a disgwylir y bydd y traethawd hir yn cael ei gyflwyno ymhen pedair blynedd ar ôl cofrestru.

Cynllunir y Ddoethuriaeth Broffesiynol neu DProf i ganiatáu i unigolion proffesiynol cymwys astudio am ddoethuriaeth wrth barhau i weithio. Dyfernir DProf i gydnabod bod unigolyn wedi cwblhau rhaglen o astudio cydnabyddedig a ddysgir yn llwyddiannus, ynghyd ag astudiaeth bellach ac ymchwil. Gall yr ymchwil fod yn gysylltiedig â'ch gweithle, ac yn fuddiol iddo.

Ar gyfer y graddau hyn gellir dewis unrhyw bwnc mewn perthynas â'r Gymraeg a'i llenyddiaeth, neu iaith a llenyddiaeth y gwledydd Celtaidd eraill (hynafol, canoloesol a modern). Mae ymchwilwyr diweddar wedi golygu testunau o'r Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar, ac wedi gweithio ar bynciau mor amrywiol ag enwau personol dynion yng Nghymru, Cernyw a Llydaw, 400–1400 OC; gwrywdod a llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol; gwisgoedd mewn llenyddiaeth c. 1100–c. 1600; canu cynnar Guto'r Glyn; llên gwerin Gwylliaid Cochion Mawddwy; barddoniaeth Lewis Morris; llenyddiaeth Reciwsantaidd; menywod a rhywedd ym maledi Llydaw; datblygu archifau digidol; arwyddocâd diwylliannol canu pop Cymraeg cyfoes; ffuglen wyddonol Gymraeg; a chyfraniad Myrddin ap Dafydd fel ffigwr diwylliannol.

Rydym yn goruchwylio prosiectau sy'n seiliedig ar ymarfer ac yn annog ceisiadau ar gyfer cymwysterau MPhil a PhD mewn cyfieithu ac ysgrifennu creadigol.

Cewch fanteisio ar yr amrediad eang o arbenigedd academaidd a ddarperir gan staff yr Adran yn y Gymraeg ac yn yr ieithoedd Celtaidd eraill.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan o Raglen Hyfforddi Doethurol De-Orllewin a Chymru, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC). Mae'r Consortiwm Ymchwil hwn yn cyllido ysgoloriaethau PhD yn y celfyddydau a'r dyniaethau ac yn rhoi cyfle am arolygaeth a hyfforddiant ar draws y prifysgolion sy'n rhan o'r consortiwm. Cysylltwch â ni i drafod posibiliadau neu ewch i wefan yr AHRC i gael rhagor o wybodaeth am ysgoloriaethau a'r drefn i wneud cais: **www.sww-ahdtp.ac.uk**.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y tudalennau Sut i Ymgeisio, neu cysylltwch â ni.

# Proffiliau myfyrwyr




## Elen Haf Roach

**Cwrs: Cymraeg Proffesiynol**

**Roedd y cwrs yn apelio ataf oherwydd…** ei natur fodern a bywiog. Mae'r profiadau a sgiliau rwyf wedi magu yn wych ac rwy'n teimlo fel bod y cwrs yn eich paratoi ar gyfer y gweithle a bywyd wedi'r Brifysgol.

**Y peth gorau am y cwrs yw…** yr agosatrwydd sy'n bodoli rhwng fy nghyd-fyfyrwyr a'r staff. Golyga hyn fod hi'n hawdd gwneud ffrindiau oes tra'n meithrin sgiliau newydd fydd yn hollbwysig ar ôl i mi raddio.

**Y peth braf am astudio yn Aberystwyth yw…** yr ymdeimlad o berthyn a'r gymuned glòs Gymreig. Yn ddi-os, mae'r Brifysgol a'r dref yn mynd law yn llaw â'i gilydd ac mae hyn yn creu awyrgylch arbennig iawn wrth astudio a mwynhau popeth sydd gan Aberystwyth i'w chynnig.



## Alaw Jones

**Cwrs: Cymraeg Proffesiynol**

**Roedd y cwrs yn apelio ataf oherwydd…** ei fod yn gyfle i ddysgu sgiliau a fydd o fudd i mi eu defnyddio yn y gweithle proffesiynol.

**Y peth gorau am y cwrs yw…** cael blas ar lu o brofiadau a phrofi trawsdoriad o fodiwlau. Profiad amhrisiadwy oedd cael bod yn rhan o dîm golygyddol cylchgrawn llenyddol 'Y Ddraig' a threfnu noson Llên a Chân. Mae'r cwrs yn cynnig cymaint o gyfleoedd i ni fel myfyrwyr, o ysgrifennu creadigol i ddefnyddio ein hiaith ar waith, a Sgiliau Astudio Iaith a Llên.

**Y peth braf am astudio yn Aberystwyth yw…** y teimlad cartrefol sydd rhwng y Brifysgol a'r dref, yn ogystal a golygfeydd godidog o Fae Ceredigion.




## Ela Wyn James

**Cwrs: Cymraeg / Drama ac Astudiaethau Theatr**

**Y peth gorau am y cwrs yw…** y ffaith fy mod yn medru astudio Cymraeg a Drama ar y cyd yn hwylus. Mae pob darlith yn cynnig rhywbeth gwahanol a newydd sy'n fy niddori'n fawr.

**Y peth braf am astudio yn Aberystwyth yw…** prydferthwch y dref. Mae'r golygfeydd godidog yn ddigon i roi gwên ar eich wyneb ac mae pawb yn barod i'ch helpu ar unrhyw adeg. Dyma brifysgol hyfryd i astudio ynddi ac rydych yn sicr o gael amser gwerth chweil yma.



## Hannah Lowri Evans

**Cwrs: Cymraeg / Drama ac Astudiaethau Theatr**

**Y peth gorau am y cwrs yw…** dysgu hanes yr iaith, a'r heniaith gan ehangu fy ngorwelion yn ogystal â chwrdd â ffrindiau newydd.

**Y peth braf am astudio yn Aberystwyth yw…** ei fod yn brifysgol ger y lli ac yn rhan o gymdeithas fach Gymreig… yn ogystal â'r holl gyfleoedd y tu allan i oriau gwaith megis dod yn aelod o UMCA ac Aelwyd Pantycelyn. Peth braf yw hefyd gallu astudio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



## Roger Stone

**Cwrs: Cymraeg**

**Roedd y cwrs yn apelio ataf oherwydd…** bod astudio am radd yn y Gymraeg yn uchelgais ers blynyddoedd mawr ac ers imi ymddeol o'r gweithle mae gennyf gyfle i'w wireddu.

**Y peth gorau am y cwrs yw…** yr amrywiaeth eang o fodiwlau a geir. Y mae pob pwnc yn ddiddorol a chyflwynir pob un gan arbenigwr sydd yn fy sbarduno i ddysgu mwy a dyfnhau fy nealltwriaeth. Ceir cyfleoedd annisgwyl i wneud pethau newydd fel paratoi erthygl i'w chyhoeddi a threfnu noson lenyddol a cherddorol.

**Y peth braf am astudio yn Aberystwyth yw…** argaeledd popeth o fewn pellter cerdded. Y mae adnoddau heb eu hail ar y campws ac yn agos iddo – yn enwedig y Llyfrgell Genedlaethol a'i chynnwys aruthrol. Ar y campws y mae pob aelod o'r staff yn gymwynasgar iawn, sydd yn galonogol.




## Nia Lloyd

**Cwrs:  Cymraeg Proffesiynol**

**Roedd y cwrs yn apelio ataf oherwydd…** roeddwn yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau angenrheidiol y bydd eu hangen ym myd gwaith. Fel myfyriwr sydd ddim yn siŵr pa lwybr gyrfa hoffwn ei ddilyn, mae'r cyfnod o brofiad gwaith y mae'r cwrs yn cynnig yn werthfawr.

**Y peth gorau am y cwrs yw…**  cwrdd â ffrindiau newydd â'r un angerdd â mi tuag at y Gymraeg. Hefyd, mae'r ffaith fy mod yn medru dewis modiwlau sy'n fy siwtio i yn gwneud y gwaith yn gyffrous a diddorol.

**Y peth braf am astudio yn Aberystwyth yw…** byw yn ymyl y môr. Mae yna wir deimlad o gymuned yma yn ogystal – cymuned nas ceir yn unrhyw le arall. Mae'n hyfryd bod yn fyfyriwr yma a does dim amheuaeth y byddwch yn cael amser gwerth chweil yma hefyd!




# Cyflogadwyedd

O sicrhau sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg ynghyd â dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru, gallwch ddisgwyl mwynhau amrywiaeth eang o swyddi.

Yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg a sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru mae galw mawr am weision sifil, gweinyddwyr, cyfieithwyr, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion marchnata, yn ogystal ag athrawon, ysgrifenwyr, cysodwyr, golygyddion, darllenwyr proflenni, cyhoeddwyr, newyddiadurwyr ac ymchwilwyr a chyflwynwyr yn y cyfryngau Cymraeg.

Mae gradd yn y Gymraeg o Brifysgol Aberystwyth yn paratoi myfyrwyr ar gyfer ystod eang o gyfleoedd gwaith gwerthfawr yn y sectorau preifat a chyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt. Mae canlyniad cyflogadwyedd yr Adran yn dweud y cyfan: roedd 100% o'n graddedigion mewn swydd neu addysg bellach chwe mis ar ôl iddynt raddio. (HESA 2018)

Mae cyflogadwyedd wedi ei ymgorffori yn y cwricwlwm a gynigir i bob un o'n myfyrwyr. Nod ein modiwlau amrywiol yw meithrin eich sgiliau beirniadol, dadansoddol a chreadigol. Bydd ein modiwlau yn atgyfnerthu eich Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, ac yn eich paratoi ar gyfer marchnad swyddi gystadleuol drwy wella eich gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac i weithio â phobl eraill. Mae'r modiwl 'Y Gymraeg yn y Gweithle' yn cynnig profiad gwaith gyda 30 o sefydliadau a chwmnïau cenedlaethol a lleol.

Ar ben hynny, mae'r cynllun gradd blaengar 'Cymraeg Proffesiynol' wedi sefydlu ei hun yn gymhwyster safonol ym marn darpar gyflogwyr sy'n chwilio am weithwyr dwyieithog cymwys – cafodd nifer o'n myfyrwyr gynnig gwaith amser llawn yn sgil eu lleoliadau gwaith.

Mae'r Adran hefyd yn rhan o gynllun sy'n cael ei gynnig gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd sy'n cynnig arweiniad i fyfyrwyr ar agweddau ymarferol megis ysgrifennu CV a sut i ymddwyn mewn cyfweliad. Daw siaradwyr gwadd yn eu tro o'r tu allan i'r Brifysgol i sôn am y cyfleoedd sydd ar gael i siaradwyr y Gymraeg yn y farchnad waith. Fel rhan o'r cynllun byddwch yn cael eich annog i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael i chi yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth, er mwyn eich gwneud eich hun yn fwy deniadol i ddarpar gyflogwyr.



# Ymchwil

Ymchwil sy'n gyrru Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ac mae ein staff yn arbenigo ar iaith a llên Cymru a'r gwledydd Celtaidd eraill: Iwerddon, yr Alban, Ynys Manaw a Llydaw. Mae ein hymchwil i agweddau ar Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd yn rhychwantu'r canrifoedd, ac yn cwmpasu'r meysydd arbenigol canlynol:

- ysgolheictod testunol a sgiliau golygyddol; diwylliant llawysgrifol a llenyddol
- cyfieithu ac addasu llenyddol (damcaniaeth ac ymarfer, yn cynnwys y Canol Oesoedd)
- ieithyddiaeth ac ieitheg
- damcaniaeth feirniadol, yn arbennig ffeministiaeth ac astudiaethau rhywedd, eco-feirniadaeth, damcaniaeth ymateb y darllenydd
- hanes a beirniadaeth lenyddol
- ysgrifennu creadigol
- bywgraffiad ac ysgrifennu am fywyd
- ysgrifennu a diwylliant llenyddol merched
- llenyddiaeth y tirwedd a'r amgylchedd
- hunaniaeth leol a chenedlaethol mewn llenyddiaeth a diwylliant modern cynnar a chyfoes; llenyddiaeth 'pedair cenedl' ac 'archipelegaidd'
- llenyddiaeth Gymraeg a Gwyddeleg gymharol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr MPhil a PhD.

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ddiweddaraf cadwodd yr adran ei henw da am gyhoeddiadau ymchwil o safon flaengar drwy'r byd, a rhagoriaeth rhyngwladol. Barnwyd bod 42% o gyhoeddiadau'r Adran yn flaengar drwy'r byd (4*) ac ystyriwyd bod 30% arall yn 'rhyngwladol ragorol' (3*).


Mae'r cylchgronau pwnc-ddiffiniol canlynol yn cael eu golygu gan aelodau o'r staff:

- **Dwned** (Dr Bleddyn Owen Huws)
- **The Journal of Celtic Linguistics** (Dr Simon Rodway).

Mae proffiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth am ddiddordebau ymchwil unigol y staff. Drwy'r blynyddoedd mae'r Adran wedi derbyn grantiau allanol ar gyfer prosiectau cydweithredol.

- Trawsgrifiad o lawysgrif Cyfraith Cymru a ddihangodd o dân Wynnstay ym 1858
- Llenyddiaeth Cymru ac Ewrop (The literature of Wales and Europe)
- 'Women's Poetry in Ireland, Scotland and Wales 1400-1800' (Leverhulme Trust)
- Ymddiriedolaeth
- 'Gohebiaeth Carneddog a Rhai o'i Gyfoedion'- (the Correspondence of Carneddog and some of his contempories).

Mae gennym fantais sylweddol arall. Mae Aberystwyth yn gartref i amryw o sefydliadau allweddol, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y Deyrnas Unedig.




Cyfrol ddiweddaraf Dr Bleddyn Owen Huws ar T.H.Parry-Williams yw enillydd Gwobr Goffa Ellis Gruffydd 2019.



Dr Rhiannedd Jewell, enillydd Medal Dillwyn 2018 a Gwbor Goffa Ellis Gruffydd 2018 am ei chyfrol ar gyfieithiadau llenyddol Saunders Lewis.

# Cyfleoedd byd-eang





Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o ddewisiadau ichi fynd dramor am ran o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd i wirfoddoli yn ystod yr haf i dreulio semester neu flwyddyn lawn yn astudio'r pwnc o'ch dewis yn un o'r prifysgolion sy'n bartner inni.

Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor. Mae hyn yn eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion partner yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac i raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o gyflog na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.

## Myfyrwyr Ieithoedd

Mae myfyrwyr sy'n astudio mwy nag un iaith yn Aberystwyth yn treulio blwyddyn ychwanegol yn astudio neu'n gweithio dramor. Mae'r cyfnod yn byw dramor yn gwella rhuglder a hyder yn yr ieithoedd a ddewisir ac yn ymdrwytho myfyrwyr yn niwylliant y wlad.
























# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**Gair i gall:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**Gair i gall:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!








Adran y Gymraeg ac
Astudiaethau Celtaidd,
Adeilad Parry-Williams,
Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3AJ

+44 (0)1970 62 1537
cymraeg@aber.ac.uk
/CymraegAber
@CymraegAber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2021.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%